

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 7) 2020

1. Ar 27 Awst 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio i Bobl Anabl a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 29 Awst 2020 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 7) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 29 Awst 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Bwriedir diwygio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Mannau Parcio Arfaethedig i Bobl Anabl

Ivy Street, Penarth (15) (AK64)

Ar ochr y dwyrain, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 15 ac 16 tua'r gogledd am 5 metr.

Masefield Road, Penarth (AJ62)

Ar ochr y de o bwynt 12 metr i'r gorllewin o'r ffin rhwng eiddo rhifau 40 a 42 tua'r gorllewin am bellter o 9 metr i redeg yn gyfochrog â lleoedd parcio i bobl anabl sy'n bodoli eisoes.

Church Road, Barry (46) (AS54)

Ar ochr y de-ddwyrain o'r ffin ddeheuol rhwng eiddo rhifau 46 a 48 tua'r de-orllewin am 5 metr.

Evans Street, Barry (AV51)

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 7.5 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Spencer Street, tua'r gogledd-orllewin am 6 metr.

Everard Street, Barry (28) (AV52)

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r ffin rhwng eiddo rhifau 26 a 28 tua'r gogledd-orllewin am 5 metr.

Gaspard Place, Barry (5) (BA49)

Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 3 a 5 tua'r gogledd-orllewin am 6.6 metr.

St Nicholas Road, Barry (25) (AY49)

Ar ochr y dwyrain, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 23 a 25, tua'r de am 5.3 metr.

ATODLEN 2

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr a chreu Man Parcio i Bobl Anabl yn lle

Crossways Street, Barry (AU52)

Ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 23 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Court Road, tua'r gogledd-ddwyrain am 6 metr.

Maes Y Cwm Street, Barry (23) (AU52)

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 21 a 23, tua'r gogledd-ddwyrain am 5.2 metr.

ATODLEN 3

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Mannau Parcio i Bobl Anabl presennol

Commercial Road, Barry (18) (AT53)

Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 16 ac 18, tua'r de-ddwyrain am 5.9 metr.

ATODLEN 4

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Man Parcio i Bobl Anabl presennol gan greu man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr

Lower Morel Street, y Barri (32) AV53

Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 32 a 34 tua'r de-ddwyrain am 4.8 metr.

Dyddiad: 27 Awst 2020.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alps, Gwenfô, CF5 6AA